YSGOL BRYNREFAIL

BWS MINI BRYNREFS A MARATHON LLUNDAIN !

Pan glywyd y newyddion am Farathon Llundain a Bws Mini, rhaid cyfaddef, yr oedd peth dryswch. Arwyn Williams, Dirprwy Bennaeth yn gyrru bws mini Brynrefs o gwmpas Llundain yn y ras Marathon ?
Ond o'r dryswch fe ddaeth deallt.
Rhedeg yn y Marathon mae Arwyn Williams i godi pres tuag at gostau bws mini newydd. Tra bydd ei goesau bach yn rhedeg 42.195 cilometr, neu 26milltir 385 llathen mewn hen arian, y lleiaf allwch wneud ydi codi ar y bore Sul, gwneud panad, troi'r teledu ymlaen a'i gefnogi.
OND FE ALLWCH WNEUD LLAWER MWY !
Yn unigolion, yn deuluoedd, yn gwmnïau, yn gymdeithasau fe allwch ei noddi. Bydd pob dimau, ceiniog, chwigian, pumpunt a dec punt yn mynd tua'r gronfa i brynu bws mini newydd i Ysgol Brynrefs.

Llwybreiddiodd ei ryfeddod prin o'm blaen
Digwyddodd, darfu megis seren wib !